Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
**Neuadd y Dref**
**Wrecsam**
**LL11 1WF**

**Tachwedd 2010**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cyd-destun

## Cyd-destun

Mae Wrecsam wedi'i lleoli yn Gogledd Ddwyrain Cymru ac mae'n ffinio â Sir y Fflint i'r gogledd orllewin, Sir Ddinbych i'r gorllewin, Powys i'r de a Lloegr i'r dwyrain. Cyfanswm y boblogaeth yw 133,207.

Yn Wrecsam, mae gan 17.6% o'r bobl dros dair oed o leiaf un medr neu fwy yn yr iaith Gymraeg (h.y. siarad, darllen neu ysgrifennu) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 25.6%.

At ei gilydd, mae 64.3% o'r boblogaeth yn Wrecsam o oedran gweithio. O'r rhain, mae 18.5% yn anweithredol yn economaidd, sydd gryn dipyn yn is na'r 24.6% ledled Cymru. Mae 13.8% yn hawlio rhyw fath o lwfans yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). O'r rhai sy'n hawlio lwfans ceiswyr gwaith, mae 31.3%% o dan 25 oed. Mae hyn yn is na'r 34.2% ar gyfer Cymru.

O'r boblogaeth oedran gweithio yn Wrecsam, nid oes gan 11.2% unrhyw gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 13.7%.

Mae 19% o ddisgyblion Wrecsam sydd o oedran ysgol gorfodol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i'r canran cenedlaethol, sef 18.9%. Y lefel hon o gymhwyster yw'r 10fed uchaf yng Nghymru (CYBLD 2010). Dim ond chwech o'r 85 ardal yn Wrecsam sydd yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru erbyn hyn.

Ar 31 Mawrth 2010, roedd 100 o blant yn Wrecsam yn derbyn gofal gan yr awdurdod. Roedd 119 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant. Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 3.5% o'r boblogaeth, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru.

## Cyllid

Mae Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob pen o'r boblogaeth yn Wrecsam ar gyfer 2010-2011 yn yr 21ain safle yng Nghymru, sy'n gyson â'r blynyddoedd diwethaf. Yn draddodiadol, mae'r cyngor wedi gosod ei gyllideb refeniw cyffredinol yn ymylol islaw'r AGS.

Yn 2010-2011, gosododd y cyngor y gyllideb addysg ar lefel o 99.1% o'i ddyraniad cyllideb dangosol (DCD). Mae'r gymhareb ar gyfer 2010-2011 yn agos at y cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Y gyllideb addysg net fesul disgybl yw £4,907 sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef £4,816.

Mae'r gyllideb a ddirprwyir i ysgolion cynradd (£3,629 y disgybl) islaw'r cyfartaledd o £3,698. Fodd bynnag, mae'r gyllideb a ddirprwyir i ysgolion uwchradd (£4,288 y disgybl) ychydig uwchlaw'r cyfartaledd, sef £4,194.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Digonol**

Mae gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddigonol oherwydd:

- bod plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd cyson ac yn cyflawni safonau da ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a 4; ac
- mae'r awdurdod wedi gwella ei gymorth a'i her i ysgolion.

Fodd bynnag:

- nid yw'r awdurdod wedi gwneud digon o gynnydd o ran lleihau'r lleoedd dros ben ac o ran gwneud yn siŵr bod darpariaeth chweched dosbarth yn darparu gwerth am arian; ac
- mae gormod o ysgolion uwchradd â diffyg yn eu cyllidebau.

**Gallu i wella: Digonol**

Mae rhagolygon gwella'r awdurdod yn ddigonol oherwydd:

- bod gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion berthynas waith dda ac maent yn ymgysylltu'n dda mewn ystod o bartneriaethau; a
- bod pwyslais cynyddol ar hunanarfarnu.

Fodd bynnag:

- nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau unigol yn arfarnu deilliannau yn ddigon cyson i dargedu cymorth yn effeithiol ac nid oes trosolwg clir ar y cyd o berfformiad ar draws yr awdurdod; ac
- nid oes digon o eglurder am flaenoriaethau'r awdurdod ar gyfer addysg.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

A1 egluro'r amcanion ar gyfer addysg ym mlaenoriaethau'r cyngor ac adlewyrchu'r rhain yn ei gynlluniau;

A2 gwneud yn siŵr bod rolau'r bwrdd gweithredol a'r pwyllgor craffu yn cefnogi gwneud penderfyniadau yn effeithiol i wella gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc;

A3 gwella ansawdd a chysondeb arfarnu gwasanaethau i lywio cynllunio yn well;

A4 datblygu trefniadau cyson ar gyfer adrodd am berfformiad mewn gwasanaethau addysg ac ar draws y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc;

A5 lleihau'r lleoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd yn unol â strategaeth y cyngor ar gyfer ad-drefnu ysgolion sydd wedi'i hailalinio; a

A6 gwella effeithiolrwydd y trefniadau i fynd i'r afael â diffygion yng nghyllidebau ysgolion uwchradd.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 70 diwrnod (50 diwrnod gwaith) o dderbyn yr adroddiad. Bydd cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn mynd i'r categori ymweliad dilynol a bydd angen ymweliad monitro gan Estyn. Bydd dyddiad a ffocws yr ymweliad monitro hwn yn cael ei benderfynu gan Estyn, maes o law.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu yn ystyried a oes angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol:

1. Astudiaeth achos o arfer dda
2. Monitro gan arolygydd cyswllt
3. Ymweliad monitro gan Estyn
4. Gwelliant sylweddol
5. Mesurau arbennig

Bydd unrhyw waith dilynol yn cael ei gynllunio gan roi ystyriaeth i weithgarwch arolygu a rheoleiddio arall o fewn awdurdod. Bydd pob arolygiad dilynol yn cael ei fwydo i Galendr Rheoleiddio'r Awdurdod Lleol er mwyn osgoi dyblygu ac i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Da

**Safonau: Da**

Mae lefelau prydau ysgol am ddim a mesurau amddifadedd eraill wedi cynyddu yn Wrecsam yn y tair blynedd diwethaf. Mae cyfradd y cynnydd mewn prydau ysgol am ddim wedi bod yr uchaf ond un yng Nghymru dros y cyfnod hwn. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae deilliannau ar gyfer asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol ac arholiadau allanol wedi gwella ar gyfradd gyflymach na Chymru gyfan yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel ei gilydd. Pan ystyrir ystod o wybodaeth gyd-destunol, mae perfformiad disgyblion yn Wrecsam uwchlaw'r hyn y gellir ei ddisgwyl yng nghyfnod allweddol 1, cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae ymhell uwchlaw'r hyn y gellir ei ddisgwyl ar gyfer hanner y dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4. Mae perfformiad yn ysgolion uwchradd Wrecsam yn dda mewn o leiaf dwy o bob tair ysgol uwchradd o'i gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim.

O 2007 i 2009, fe wnaeth Wrecsam fodloni neu ragori ar fwyafrif meincnodau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, yn seiliedig ar hawl i brydau ysgol am ddim. Nid yw'r wybodaeth sydd wedi'i meincnodi ar gyfer 2010 ar gael eto.

Ym mhob cyfnod allweddol, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn debyg i dueddiadau cenedlaethol, neu'n llai na nhw. Mae grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyrraedd eu lefelau disgwyliedig ar y cyfan.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn yn ennill medrau mewn Cymraeg mamiaith a Chymraeg ail iaith ac maent yn cyflawni safonau da yn y ddau bwnc. Mae canran dysgwyr Wrecsam sy'n ennill cymwysterau mewn Medrau Hanfodol yn gwella.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da i gyfnod nesaf eu haddysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae canran dysgwyr Wrecsam sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig wedi gwella er 2007 ac mae'n well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae canran y dysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gwella ar gyfradd gyflymach na Chymru ac mae'n well na chyfartaledd Cymru. Nid yw'r canran sy'n aros mewn addysg amser llawn wedi gwella mor gyflym yn y cyfnod hwn er bod data heb ei wirio yn awgrymu y gwnaeth i hyn gynyddu yn 2010.

Prin yw'r bobl ifanc sy'n cael achrediad mewn lleoliadau anffurfiol a lleoliadau nad ydynt yn ffurfiol.

**Lles: Da**

Mae safonau lles yn dda ar y cyfan. Mae ystod dda o fentrau a strategaethau effeithiol i hyrwyddo cyfranogiad mewn dysgu. Mae presenoldeb da iawn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd.

Caiff rhaglenni cymorth Wrecsam effaith gadarnhaol ar ymddygiad a dysgu'r dysgwyr. Nid oes bron unrhyw waharddiadau parhaol. Fodd bynnag, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol yn parhau i fod yn rhy uchel.

Mae rhaglen Wrecsam ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn helpu dysgwyr i ddatblygu ymddygiadau sy'n eu galluogi i oresgyn profiadau anodd. Gall y dysgwyr hyn nodi pryd mae angen cymorth arnynt a defnyddio gwasanaethau cymorth yn gyflymach oherwydd darpariaeth well o ran cwnsela. Mae ymwybyddiaeth pobl ifanc o beryglon camddefnyddio cyffuriau ac alcohol wedi gwella trwy raglen In2Change.

Oherwydd bod y gwasanaeth ieuenctid yn gweithio'n dda gyda phartneriaid fel y gwasanaeth iechyd, mae pobl ifanc yn yr ysbyty yn ymgysylltu'n effeithiol â gweithwyr prosiect. Mae'r bobl ifanc hyn yn llai tebygol o niweidio'u hunain neu gael eu hailanfon i'r ysbyty o ganlyniad i brosiect Inspire.

Mae cyfraniad pobl ifanc at wneud penderfyniadau yn yr awdurdod lleol yn gwella o ganlyniad i ddatblygu Senedd Yr Ifanc. Fodd bynnag, nid yw'r Senedd yn cymryd rhan yn llawn eto yng nghynllunio strategol y cyngor nac yn y broses graffu. Nid yw datblygu'r iaith Gymraeg yn cael ei chynrychioli'n ddigonol yng nghynllun gweithredu'r Senedd a'i haelodaeth.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Digonol**

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Da**

Mae'r awdurdod wedi gwella ei brosesau i gefnogi a herio ysgolion. Mae'n amlinellu meini prawf clir yn ei Gytundeb Partneriaeth i nodi ac ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Mae ysgolion yn deall y meini prawf hyn yn dda ar y cyfan ac mae swyddogion wedi'u defnyddio'n effeithiol i godi safonau mewn rhai ysgolion sy'n tanberfformio.

Mae'r awdurdod yn darparu ystod dda o ddadansoddiadau data i'w ysgolion. Mae swyddogion yn cefnogi arweinwyr a llywodraethwyr ysgol yn dda i ddefnyddio'r dadansoddiadau hyn yn fwy effeithiol. Mae hyn wedi cyfrannu at godi safonau, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

Mae swyddogion yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ysgolion ar ôl ymweliadau ag ysgolion. Mae'r nodiadau hyn o ymweliad yn dangos meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, maent yn aml yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ac nid ydynt bob amser yn arfarnu ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion yn ddigon trylwyr.

Mae'r awdurdod wedi trefnu swyddogion effeithiolrwydd ysgolion a'r rhai o wasanaethau eraill yn dimau i weithio gyda chlystyrau o ysgolion. Mae'r trefniadau hyn yn gwella effeithiolrwydd cymorth a her yr awdurdod ac yn gwneud yn siŵr bod

swyddogion o ystod o wasanaethau yn gweithio mewn ffordd fwy cyson a chysylltiedig gydag ysgolion.

Mae'r awdurdod yn cefnogi ystod o fentrau defnyddiol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Mae strategaethau wedi'u cynllunio'n dda yn bodoli i godi safonau, gan gynnwys cymorth ar gyfer y medrau sylfaenol. Ceir cymorth da ar gyfer Cymraeg. Rhoddir cymorth da iawn i roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith ac mae datblygu Llwybrau Dysgu 14-19 wedi ymestyn y dewis a'r cyfle ar gyfer dysgwyr yn dda.

Nid yw asesiadau athrawon o'r pynciau craidd ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn cael eu safoni'n ddigon cyson i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchiad cywir o gyflawniad disgyblion, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 1 a 2.

Mae'r awdurdod yn darparu cyfleoedd hyfforddi da ar gyfer arweinwyr ar bob lefel mewn ysgolion.

**Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol: Digonol**

Wrecsam sydd â'r canran uchaf o ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r strategaeth i leihau nifer y datganiadau yn dechrau cael effaith gadarnhaol. O ganlyniad i gydweithio da ag asiantaethau partner, mae'r awdurdod bellach yn darparu cymorth yn yr ysgol ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar heb gynnal asesu statudol. Mae gan rieni hyder cynyddol yn yr awdurdod i fodloni anghenion eu plentyn heb ddatganiad, ac o ganlyniad, ni chafwyd unrhyw apeliadau i dribiwnlys yn y ddwy flynedd ddiwethaf a chafwyd un yn unig yn y pum mlynedd diwethaf.

Nid oes gan yr awdurdod system ddigon effeithiol ar gyfer casglu ac arfarnu data ar berfformiad disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan ysgolion wybodaeth dda am y cynnydd a wneir gan ddisgyblion unigol. Fodd bynnag, nid oes gan swyddogion system gydlynus i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i arfarnu anghenion pob grŵp o ddisgyblion a chynllunio darpariaeth yn strategol.

Mae swyddogion yn darparu ystod eang o hyfforddiant a chyngor o ansawdd uchel i ddatblygu medrau staff mewn ysgolion. Mae'r ffocws hwn ar adeiladu cynhwysedd ysgolion i fodloni anghenion disgyblion yn dechrau lleihau'r cyfeiriadau am gymorth ychwanegol.

Nid yw timau Cynhwysiant ac Effeithiolrwydd Ysgolion yn cydweithio'n ddigon strategol ar y ffordd orau o dargedu adnoddau a hyfforddiant mewn ysgolion. Mae hyn yn cyfyngu gallu'r awdurdod i effeithio ar ddeilliannau pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol.

Nid oes protocol cytûn eto sy'n sicrhau bod plant y gofelir amdanynt yn cael asesiad o'u hanghenion dysgu cyn cael eu lleoli mewn ysgolion annibynnol y tu allan i'r sir. O ganlyniad, nid yw'r awdurdod bob amser yn cael darlun clir ynghylch a yw pob disgybl felly yn gwneud y cynnydd y dylai fod yn ei wneud.

Mae cyngor a chymorth effeithiol a chydlynus ar gyfer rhieni y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

**Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles: Digonol**

Mae'r awdurdod wedi cyflwyno ystod o fentrau defnyddiol sy'n cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed yn dda. Fodd bynnag, nid yw swyddogion yn arfarnu deilliannau digon i dargedu darpariaeth yn effeithiol.

Mae cymorth da ar gyfer y disgyblion hynny y mae eu hymddygiad yn rhwystro eu dysgu. Mae ysgolion a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i leihau nifer y gwaharddiadau parhaol ac fe gaiff dysgwyr gymorth priodol i fynd yn ôl i ddysgu ar ôl cael eu gwahardd. Fodd bynnag, nid yw'r mentrau hyn wedi cael digon o effaith eto ar leihau gwaharddiadau cyfnod penodol.

Mae strategaeth effeithiol i leihau canran y dysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae gwasanaethau ar gyfer troseddwyr ifanc yn cynnig ymyriadau llwyddiannus ar gyfer nodi ac atal ymddygiad troseddol yn gynnar.

Mae'r awdurdod wedi penodi swyddog prosiect i ddatblygu ymhellach y gwasanaethau ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed sy'n cael eu haddysgu ac yn cael gofal mewn darpariaeth annibynnol y tu allan i'r sir. Mae hyn wedi gwella cymorth a gofal yr awdurdod i'r dysgwyr hyn. Mae'r awdurdod yn bodloni ei ddyletswyddau statudol o ran plant y gofelir amdanynt.

Mae cydweithio effeithiol rhwng yr unedau cyfeirio disgyblion ac eraill yn galluogi disgyblion i gael ystod dda o ddewisiadau yn y coleg a gyda chyflogwyr lleol. Nid oes gan yr awdurdod gynllun strategol clir ar gyfer dyfodol yr unedau hyn eto, gan gynnwys uned cyfeirio ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4.

Mae darpariaeth dargedig wedi gwella'r cyfle a gaiff pobl ifanc i ddefnyddio gwasanaethau cymorth ieuenctid fel cwnsela, darparu gwybodaeth, cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau a chymorth â pherthnasoedd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd o ran mapio darpariaeth a chostau yn rhy araf. Ni chaiff pobl ifanc ddigon o gyfleoedd i ennill cymwysterau mewn lleoliadau nad ydynt yn ffurfiol a lleoliadau anffurfiol.

Mae gan yr awdurdod lleol bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Digonol**

Mae ystod dda o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar. Mae'r awdurdod yn monitro'r ddarpariaeth yn rheolaidd ac yn rhoi cymorth effeithiol i sicrhau gwelliannau parhaus mewn ansawdd. Mae'r awdurdod yn ymgynghori'n briodol ar dderbyniadau i ysgolion ac yn cydlynu gweithdrefnau yn effeithiol. Mae ysgolion a rhieni yn glir ynglŷn â'r trefniadau hyn ac mae'r awdurdod yn bodloni bron pob un o ddewisiadau rhieni.

Er 2005, mae Adolygiad Ysgolion Cynradd yr awdurdod wedi cyflwyno ystod o brosiectau sydd wedi gwella ansawdd adeiladau ysgol. Mae prosiectau cadarn i

wella cyfleusterau mewn tair ysgol uwchradd. Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn lleihau nifer y lleoedd dros ben yn y sector cynradd. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y sector uwchradd yn rhy araf ar hyn o bryd, ac o ganlyniad, mae'r nifer uchaf ond un o leoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd yn Wrecsam o blith holl awdurdodau Cymru.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod wedi mynd ati'n briodol i ail-alinio'i gynlluniau ar gyfer trefnu a moderneiddio ysgolion. Mae cyfres o adolygiadau ardal yn yr arfaeth a bydd y gyfres hon yn nodi dewisiadau ar gyfer prosiectau ad-drefnu er mai megis dechrau y mae cynlluniau manwl. Mae gan yr awdurdod ddata priodol ar gyflwr ac addasrwydd ei adeiladau ysgol.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i'w gynllun trawsnewid ôl-16 i fynd i'r afael â darpariaeth chweched dosbarth aneconomaidd mewn rhai ysgolion. Fe wnaeth swyddogion argymell yn gryf y dylid cynnig opsiwn am ddarpariaeth drydyddol lawn yn y coleg addysg bellach. Dewisodd aelodau etholedig opsiwn gwahanol yn seiliedig ar gonsortiwm chweched dosbarth. Nid yw'r awdurdod wedi mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd mewn darpariaeth chweched dosbarth eto a nodwyd mewn arolygiad blaenorol gan Estyn o ddarpariaeth 14-19.

Mae mynediad i wasanaethau cymorth ieuenctid ac i hawliau pobl ifanc yn foddhaol. Mae gwaith presennol yn rhoi sylfaen dda ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ddigon o wybodaeth eto am ddarpariaeth i'w helpu i arfarnu pa mor dda y mae'r gwasanaethau hyn yn bodloni anghenion pobl ifanc.

## Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Digonol

### Arweinyddiaeth: Digonol

Mae gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion yr awdurdod berthynas waith dda. Mae aelodau yn dangos ymrwymiad cryf i wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Cânt eu cynnwys yn briodol ym mhob un o'r partneriaethau statudol.

Nid yw'r cysylltiadau rhwng cynlluniau ar lefelau amrywiol bob amser yn ddigon clir i helpu swyddogion yn eu gwaith i ysgogi gwelliannau i wasanaethau. Nid yw gweledigaeth yr awdurdod ar gyfer ei wasanaethau addysg wedi'i datgan mor glir ag y gallai fod mewn rhai cynlluniau allweddol. Er enghraifft, mae cyfeiriadau yn y Strategaeth Gymunedol, Cynllun y Cyngor a'r cynllun presennol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn rhy eang. Fodd bynnag, mae'r cynllun arfaethedig ar y cyd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ac Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn cynnig ffocws cryf ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r awdurdod a blaenoriaethau partneriaid. Yn ychwanegol, mae strwythur newydd y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc yn rhoi llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Mae aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau anodd, fel y polisi cludiant diwygiedig, sy'n ceisio cael gwared ag anghydraddoldeb ac anghysondebau. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud ar bolisïau addysg pwysig eraill, fel lleihau nifer y lleoedd dros ben a sicrhau bod darpariaeth chweched dosbarth yn cynnig gwerth am arian.

Mae uwch swyddogion wedi mynd ati'n briodol i gynyddu eu her i dimau arwain a chyrff llywodraethol ysgolion ar eu perfformiad ariannol a deilliannau disgyblion. Maent yn gweithio'n galed i newid y diwylliant mewn ysgolion a chodi lefelau uchelgais athrawon a disgyblion.

Mae craffu yn dwyn swyddogion i gyfrif yn dda. Mae angen mynd ati'n fwy effeithiol i ddwyn aelodau portffolio i gyfrif am waith eu gwasanaeth.

Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn datblygu ei waith yn briodol, yn unol â blaenoriaethau'r Strategaeth Gymunedol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae pwyslais cynyddol ar hunanarfarnu yn yr awdurdod ac mae swyddogion a thimau yn arfarnu eu gwaith yn rheolaidd. Mae'r gwasanaeth effeithiolrwydd ysgolion yn defnyddio data perfformiad a her allanol yn dda i wella'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr arfarnu yn gyson ar draws gwasanaethau ac nid yw rhai yn arfarnu effaith yr hyfforddiant a'r mentrau yn ddigon cyson.

Caiff blaenoriaethau a thasgau allweddol yn y cynllun Plant a Phobl Ifanc eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd gan uwch swyddogion. Fodd bynnag, mae'r adrodd am berfformiad braidd yn ddatgymalog ar draws gwasanaethau'r awdurdod a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Yn sgil hyn, nid yw'r gwahanol systemau adrodd yn rhoi darlun cyffredinol o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cyngor a blaenoriaethau'r bartneriaeth. Roedd yr awdurdod yn hwyr iawn yn rhoi adroddiad hunanarfarnu i Estyn.

Mae gan yr awdurdod strategaeth gyfranogi ddefnyddiol ar gyfer rhanddeiliaid. Mae llawer o enghreifftiau da o ymyriadau yn deillio o ymgynghori effeithiol â'r gymuned a'r rhanddeiliaid. Er enghraifft, yn sgil ymgynghori â phenaethiaid, nodwyd bod angen cymorth gwell ar gyfer rhieni. Fe wnaeth y prosiect hwn wella presenoldeb disgyblion ysgolion cynradd yn yr ardaloedd blaenoriaeth.

Mae'r system adolygu perfformiad a gwerthuso datblygiad gyrfa ar gyfer staff yn sicrhau bod amcanion unigol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gweithredol a strategol. Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd priodol yn bodloni'r argymhellion o arolygiadau blaenorol, gan gynnwys gwella safonau cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi bod yn rhy araf mewn rhai meysydd. Er enghraifft, ni chwblhawyd argymhelliad i nodi blaenoriaethau a chostau ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yn y Cynllun Partneriaeth.

Mae'r awdurdod yn cymryd rhan mewn ystod eang o rwydweithiau a phartneriaethau sy'n rhannu arfer dda, gan gynnwys partneriaeth ranbarthol Gogledd Cymru.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc Wrecsam yn ymgymryd yn dda ag ystod eang o waith partneriaeth. Mae'n cyfrannu mewn modd cadarnhaol at bartneriaethau mewnol ac allanol presennol.

Mae enghreifftiau da o ddatblygu partneriaethau ar draws awdurdodau ac asiantaethau eraill yng Ngogledd Cymru. Mae’r rhain yn cynnwys ffocws cryf ar gydweithio ar gyfer cyflwyno gwasanaethau i gynyddu cynhwysedd a gwella effeithlonrwydd. Maent yn cynnwys Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a’r Bwrdd Lleol arfaethedig ar y cyd ar gyfer Diogelu Plant rhwng Wrecsam ac awdurdod cyfagos. Mae’r gwaith yn mynd rhagddo’n dda, ond ni chafwyd cytundeb eto ar gynlluniau a thargedau.

Cynllun y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, yn briodol, yw’r ysgogwr ar gyfer sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae’r Bartneriaeth wedi cynnal adolygiad o’r cynllun cyfredol ac mae wedi ei ddefnyddio’n dda i ddatblygu cynllun drafft sy’n cynnwys mwy o ffocws ar gyfer 2011-2014. Mae’r cynllun drafft hwn yn dod â’r strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a’r Cynllun Plant a Phobl Ifanc at ei gilydd am y tro cyntaf. Mae’r Bartneriaeth hefyd yn mynd ati i ddatblygu ffyrdd o wella cynllunio a mesur deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae’r Bartneriaeth wedi bod yn araf yn nodi goblygiadau o ran adnoddau ers yr arolygiad diwethaf, ac nid yw’r rhain wedi’u cynnwys yn y cynllun drafft ar y cyd. Mae cynlluniau i gynnwys mwy o fanylion yn dilyn ymgynghori ar y cynllun.

Nid yw monitro perfformiad, adrodd a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon cyson bob amser. Nid oes system fonitro ac adrodd a ddeellir yn glir i roi trosolwg effeithiol i’r awdurdod a’r Bartneriaeth o gynnydd ac effaith y gwasanaethau.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan Wrecsam bolisi o gefnogi cyllidebau ysgolion yn dda. O ganlyniad, mae’r gwariant ar addysg yn agos at y cyfartaledd er gwaethaf y ffaith fod adnoddau cyffredinol yr awdurdod yn isel. Mae’r awdurdod yn mynd ati’n briodol i flaenoriaethu moderneiddio ysgolion mewn rhaglenni cyfalaf ac mae wedi diogelu ysgolion rhag arbedion effeithlonrwydd.

Mae’r rheolaeth ariannol yn dda ar y cyfan. Caiff sefyllfaoedd cyllidebau a chynllunio ariannol blynyddol cynnar eu monitro’n rheolaidd. Mae ysgolion ac aelodau etholedig yn cymryd rhan yn y broses yn dda.

Mae’r Cyngor wedi cytuno ar brosiect ‘Gwell Addysg a Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth’ fel un o’i flaenoriaethau. Mae wedi nodi ychydig bach o gyllid ar gyfer hyn. Fodd bynnag, mae ffocws y prosiect yn rhy gyfyng ac nid yw’r awdurdod wedi nodi agweddau eraill ar y gwasanaethau addysg yn ei brif flaenoriaethau eto.

Mae’r awdurdod yn effeithiol yn ennill cyllid allanol. Fodd bynnag, mae hyn wedi achosi i rai agweddau ar wasanaethau fod yn rhy ddibynnol ar grantiau a allai gael eu tynnu’n ôl.

Mae’r awdurdod wedi mynd ati’n llwyddiannus i annog ysgolion cynradd i leihau gweddillion uchel mewn cyllidebau. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol arbennig a chwech o’r naw ysgol uwchradd ddiffyg ariannol. Mae’r awdurdod wedi rhoi gweithdrefnau clir ar waith i gynyddu’r modd y mae’n monitro a herio ysgolion.

Mae gwerth cyffredinol am arian y gwasanaethau addysg yn ddigonol. Mae gwariant yr awdurdod ar ysgolion uwchradd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd, tra bo'r gwariant ar ysgolion cynradd islaw'r cyfartaledd. Nid yw'r awdurdod wedi arfarnu effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau yn ddigonol i wneud yn siŵr ei fod yn sicrhau'r gwerth gorau. Fodd bynnag, mae enghreifftiau lle bu arfarniad da o werth am arian.

## Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mererid Stone AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Iwan Roberts AEM | Dirprwy Arolygydd Arweiniol |
| John Thomas AEM | Arolygydd Tîm |
| Farrukh Khan AEM | Arolygydd Tîm |
| Michael Munting AEM | Arolygydd Tîm |
| Susan Roberts AEM | Arolygydd Tîm |
| Jane Taylor AEM | Arolygydd Tîm |
| Angharad Reed AEM | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Steve Martin | Swyddfa Archwilio Cymru |
| John Maitland Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Andy Hawkins | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)